OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 3200 (Cy.285)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Rhagfyr 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Rhagfyr 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ionawr 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 4 o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), a chan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer bwriad a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) (Rhif 2) 2008, daw i rym ar 8 Ionawr 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ardaloedd llai ffafriol" ("*less favoured areas*") yw tir dan anfantais neu dir dan anfantais ddifrifol;

mae i'r ymadrodd "hectar cymwys" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "eligible hectare" yn Erthygl 44(2) o Reoliad y Cyngor 1782/2003;

ystyr "mapiau dynodedig ("*designated maps*") yw'r ddwy gyfrol o fapiau dyddiedig 20 Mai 1999, sydd wedi eu Rhif o 1 a 2, y mae'r naill gyfrol a'r llall wedi eu marcio â "Volume of Maps of less favoured farming areas in Wales" ac â Rhif y gyfrol, ac sydd wedi eu llofnodi

(**1**) 1986 p.5.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (p.5) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 1972 p.68.

gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'u hadneuo yn swyddfeydd Adran Amaethyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;

ystyr "Rheoliad y Cyngor 1782/2003" ("*Council Regulation 1782/2003*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin, yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr ac yn diwygio Rheoliadau penodol(**4**);

ystyr "taliad Tir Mynydd" ("*Tir Mynydd payment*") yw cymorth ariannol a delir yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006(**5**);

ystyr "tir cymwys" ("*eligible land*") yw'r rhan honno o'r tir cymhwysol sydd o fewn ardal lai ffafriol;

ystyr "tir dan anfantais" ("*disadvantaged land*") (ac eithrio yn yr ymadrodd "tir dan anfantais ddifrifol") yw unrhyw ardal o dir sydd wedi ei lliwio'n las ar y mapiau dynodedig;

ystyr "tir dan anfantais ddifrifol" ("*severely disadvantaged land*") yw'r ardal o dir sydd wedi ei lliwio'n binc ar y mapiau dynodedig.

### Asesu cynhwysedd cynhyrchu tir

**2.**—(1) Mae paragraffau (2) a (3) o'r erthygl hon yn cael eu heffaith at ddibenion asesu cynhwysedd cynhyrchu uned o dir amaethyddol a leolir yng Nghymru, er mwyn penderfynu a yw'r uned honno'n uned fasnachol o dir amaethyddol o fewn ystyr paragraff 3(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

(2) Os gellir defnyddio'r tir dan sylw, pan ffermir ef dan reolaeth gymwys, i gynhyrchu unrhyw dda byw, cnwd âr fferm, cnwd garddwriaethol yn yr awyr agored, neu ffrwythau fel y crybwyllir yn unrhyw un o gofnodion 1 i 3 yng ngholofn 1 yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yna—

(a) yr uned gynhyrchu a ragnodir o ran y defnydd hwnnw o'r tir fydd yr uned yn y cofnod yng ngholofn 2 yn yr Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw, a

(b) y swm a bennir, ar gyfer y cyfnod o 12 mis yn dechrau ar 12 Medi 2008, yn incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw fydd y swm yn y cofnod yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw fel y'i darllenir gydag unrhyw nodyn perthnasol i'r Atodlen honno.

(3) Os yw tir sy'n gallu cynhyrchu incwm blynyddol net pan ffermir ef dan reolaeth gymwys yn gymwys i dderbyn taliad Tir Mynydd (fel y crybwyllir yng nghofnod 4 yng ngholofn 1 yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn) neu os oedd y tir wedi ei neilltuo rhag cynhyrchu yn 2007 (fel y crybwyllir yng nghofnod 5 yn y golofn honno), neu os oedd yn hectar cymwys yn 2007 (fel y crybwyllir yng nghofnod 6 yn y golofn honno), yna—

(a) yr uned gynhyrchu a ragnodir o ran y defnydd hwnnw o'r tir fydd yr uned yn y cofnod yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw, a

(b) y swm a bennir, ar gyfer y cyfnod o 12 mis yn dechrau ar 12 Medi 2008, yn incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu honno yn y cyfnod hwnnw fydd y swm yn y cofnod yng ngholofn 3 yn yr Atodlen honno gyferbyn â'r cofnod hwnnw.

### Dirymu

**3.** Dirymir Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2008(**6**).

---

(**4**) OJ Rhif L270, 21.10.2003, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 674/2008 (OJ Rhif L189, 17.7.2008, t.5).

(**5**) O.S. 2006/3343 (Cy.304).

(**6**) O.S. 2008/253 (Cy.29).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

15 Rhagfyr 2008

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## UNEDAU CYNHYRCHU RHAGNODEDIG A PHENNU INCWM BLYNYDDOL NET

| *Colofn 1* *Defnydd Ffermio* | | *Colofn 2* *Uned gynhyrchu* | *Colofn 3* *Incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu (£)* |
|---|---|---|---|
| **1. Da byw** | | | |
| Buchod godro (ac eithrio bridiau Ynysoedd y Sianel) | | Buwch | 437 |
| Buchod bridio cig eidion | | | |
| | Ar dir sy'n “dir cymwys” at ddibenion taliad Tir Mynydd | buwch | −104 |
| | Ar dir arall | buwch | −99 |
| Gwartheg pesgi cig eidion (lled-arddwys) | | y pen | –69[(1)] |
| Buchod llaeth i lenwi bylchau | | y pen | 83[(2)] |
| Mamogiaid: | | | |
| | Ar dir sy'n “dir cymwys” at ddibenion taliad Tir Mynydd | mamog | −18 |
| | Ar dir arall | mamog | −16 |
| ŵyn stôr (gan gynnwys ŵyn benyw a werthir fel hesbinod) | | y pen | 3.30 |
| Moch: | | | |
| | Hychod a banwesau torrog | hwch neu fanwes | 163 |
| | Moch porc | y pen | 5 |
| | Moch torri | y pen | 7.10 |
| | Moch bacwn | y pen | 8.90 |
| Dofednod | | | |
| | Ieir dodwy | aderyn | 2.30 |
| | Brwyliaid | aderyn | 0.30 |
| | Cywennod ar ddodwy | aderyn | 0.55 |

**NODIADAU I'R ATODLEN**

**(1)** Y ffigur ar gyfer anifeiliaid a fyddai'n cael eu cadw am 12 mis yw hwn. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata o'r ffigur hwn.

**(2)** Y ffigur ar gyfer anifeiliaid (waeth beth fo'u hoed) a fyddai'n cael eu cadw am 12 mis yw hwn. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata o'r ffigur hwn.

**(3)** Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y premiwm cnwd protein y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 76 o Reoliad y Cyngor 1782/2003.

| *Colofn 1* *Defnydd Ffermio* | | *Colofn 2* *Uned gynhyrchu* | *Colofn 3* *Incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu (£)* |
|---|---|---|---|
| Tyrcwn Nadolig | | aderyn | 5.85 |
| **2. Cnydau âr fferm** | | | |
| Haidd | | hectar | 111 |
| Ffa | | hectar | 125.72[(3)] |
| Had porfa | | hectar | 333 |
| Rêp had olew | | hectar | 92 |
| Pys | | | |
| | Sych | hectar | 215.72[(3)] |
| | Dringo | hectar | 294 |
| Tatws: | | | |
| | Cynnar cyntaf | hectar | 2344 |
| | Prif gnwd (gan gynnwys hadyd) | hectar | 2057 |
| Betys siwgr | | hectar | 387 |
| Gwenith | | hectar | 274 |
| **3. Cnydau garddwriaethol awyr agored a ffrwythau** | | | |
| Ffrwythau'r berllan | | hectar | 2230 |
| Ffrwythau meddal | | hectar | 6800 |
| **4. Tir Porthiant** | | | |
| Ar dir sy'n "dir cymwys" at ddibenion taliad Tir Mynydd | | hectar | Swm y taliad Tir Mynydd y mae'n ofynnol ei dalu o dan reoliad 3 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006 |
| **5. Neilltir** | | | |
| Tir a oedd yn 2007 wedi ei neilltuo rhag cynhyrchu o dan Erthygl 54(3) o Reoliad y Cyngor 1782/2003: | | | |
| | Tir dan anfantais ddifrifol | hectar | 12.57 |

**NODIADAU I'R ATODLEN**

**(1)** Y ffigur ar gyfer anifeiliaid a fyddai'n cael eu cadw am 12 mis yw hwn. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata o'r ffigur hwn.

**(2)** Y ffigur ar gyfer anifeiliaid (waeth beth fo'u hoed) a fyddai'n cael eu cadw am 12 mis yw hwn. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata o'r ffigur hwn.

**(3)** Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y premiwm cnwd protein y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 76 o Reoliad y Cyngor 1782/2003.

| *Colofn 1* *Defnydd Ffermio* | | *Colofn 2* *Uned gynhyrchu* | *Colofn 3* *Incwm blynyddol net o'r uned gynhyrchu (£)* |
|---|---|---|---|
| | Tir dan anfantais | hectar | 24.96 |
| | Pob tir arall | hectar | −70.54 |
| **6. Hectarau cymwys** | | | |
| Tir a oedd yn 2007 yn hectar cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor 1782/2003, ac eithrio tir a oedd wedi ei neilltuo rhag cynhyrchu o dan Erthygl 54(3) o'r Rheoliad hwnnw: | | | |
| | Tir dan anfantais ddifrifol | hectar | 122.69 |
| | Tir dan anfantais | hectar | 153.51 |
| | Pob tir arall | hectar | 102.55 |

**NODIADAU I'R ATODLEN**

**(1)** Y ffigur ar gyfer anifeiliaid a fyddai'n cael eu cadw am 12 mis yw hwn. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai na 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata o'r ffigur hwn.

**(2)** Y ffigur ar gyfer anifeiliaid (waeth beth fo'u hoed) a fyddai'n cael eu cadw am 12 mis yw hwn. Yn achos anifeiliaid a gedwir am lai 12 mis rhaid gwneud addasiad pro rata o'r ffigur hwn.

**(3)** Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y premiwm cnwd protein y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 76 o Reoliad y Cyngor 1782/2003.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu cynhwysedd cynhyrchu tir amaethyddol a leolir yng Nghymru ac yn gosod y swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o bob uned o'r fath am y flwyddyn o 12 Medi 2008 i 11 Medi 2009 gan gynnwys y dyddiadau hynny at ddibenion penodol yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986 ("Deddf 1986"). Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2008.

Mae asesiad o gynhwysedd cynhyrchu tir amaethyddol yn ofynnol ar gyfer penderfynu p'un a yw'r tir o dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" ai peidio at ddibenion y darpariaethau olynu yn Neddf 1986: gweler yn benodol adrannau 36(3) a 50(2). Uned o dir amaethyddol yw "uned fasnachol o dir amaethyddol" sydd, pan gaiff ei ffermio o dan reolaeth gymwys, yn gallu cynhyrchu incwm blynyddol net nad yw'n llai nag agregiad o enillion blynyddol cyfartalog dau weithiwr amaethyddol gwrywaidd llawnamser sydd yn 20 mlwydd oed neu drosodd (paragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf 1986). Wrth benderfynu'r ffigur incwm blynyddol hwn a phryd bynnag y bydd defnydd ffermio penodol a grybwyllir yng ngholofn 1 o'r Atodlen yn berthnasol i'r asesiad o gynhwysedd cynhyrchu'r tir o dan sylw, mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn darparu mai'r unedau cynhyrchu a'r incwm blynyddol net a bennir yng ngholofnau 2 a 3 yn ôl eu trefn fydd sail yr asesiad hwnnw.

Mae'r ffigurau incwm blynyddol net yng ngholofn 3 yn yr Atodlen yn disgrifio'r incwm blynyddol net o un uned gynhyrchu. Mewn rhai achosion bydd yr incwm blynyddol net yn deillio o uned a fydd ar y tir am y cyfnod llawn o ddeuddeng mis. Mewn achosion eraill bydd yr incwm blynyddol net yn deillio o uned a fydd ar y tir am ran o'r flwyddyn yn unig, a gall y bydd mwy nag un gylchred gynhyrchu yn y cyfnod o ddeuddeng mis. Bydd yr asesiad o gynhwysedd cynhyrchu'r tir yn cymryd i ystyriaeth yr holl gynhyrchu yn ystod blwyddyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys ffigurau incwm blynyddol net ar gyfer tir a oedd, yn 2007, yn hectar cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 (O.J. Rhif L270, 21.10.2003, t.1) sy'n sefydlu'r Cynllun Taliad Sengl. Mae ffigurau ar wahân yn yr Atodlen ar gyfer tir dan anfantais ddifrifol, tir dan anfantais a thir arall. Mae yna hefyd ffigurau ar wahân ar gyfer tir a oedd wedi ei neilltuo rhag cynhyrchu yn 2007.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn.